OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 660 (Cy.70)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - *10 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *11 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 129 a 203 (9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (**2**).

Diwygio'r Rheoliadau Optegol

2. Diwygir rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) fel a ganlyn —

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£50.50" rhodder "£51.90"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£13.00" rhodder "£13.40".

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

3.—(1) Diwygir Atodlenni 1 i 3 o'r Rheoliadau Optegol yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau talebau a gwerth taleb ar yr wyneb — cyflenwi ac ailosod) yng ngholofn (3) o'r tabl (gwerth taleb ar yr wyneb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(1) *Swm blaenorol*	*(2)* *Swm newydd*
£34.60	£35.50
£52.60	£54.00
£76.90	£79.00
£173.70	£178.40
£59.80	£61.40
£76.00	£78.10
£98.50	£101.20
£190.90	£196.10
£177.90	£182.70.
£50.50	£51.90

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bychain ac arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£11.30" rhodder "£11.60";

(b) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle "£13.50" rhodder "£13.90";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£3.80" rhodder "£3.90";

(ch) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.30" rhodder "£4.40";

(d) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£57.00", "£50.50" a "£27.30" rhodder "£58.50", "£51.90" a "£28.00" yn eu trefn;

(dd) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£57.00" rhodder "£58.50";

(e) ym mharagraff 2(a), yn lle "£13.00" rhodder "£13.40"; a

(f) ym mharagraff 2(b), yn lle "£33.00" rhodder "£33.90".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaeth Drosiannol

4. Nid yw'r symiau a amnewidir gan reoliadau 2 a 3 yn gymwys ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2008